



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw, Caerdydd. CF15 7QQ  
Ffôn 0300 025 6000  
ebost [cadw@llyw.cymru](mailto:cadw@llyw.cymru)  
[www.cadw.llyw.cymru](http://www.cadw.llyw.cymru)

Plas Carew, Unit 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw, Cardiff. CF15 7QQ  
Tel 0300 025 6000  
email [cadw@gov.wales](mailto:cadw@gov.wales)  
[www.cadw.gov.wales](http://www.cadw.gov.wales)

## **GWAHODDIAD I WNEUD CAIS AM DDIRPRWYO CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG**

### **1. Cefndir**

1.1 Dan Adran 13 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru (sef, Cadw yn ymarferol) pan fyddant yn bwriadu rhoi caniatâd adeilad rhestredig (CAR)

### **2. Nod**

2.1 Fodd bynnag, ble bynnag y bo'n bosibl, mae Gweinidogion Cymru'n awyddus i benderfyniadau CAR gael eu gwneud yn lleol a gallant addasu'r gofyniad i hysbysu Cadw. Er enghraifft, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd nad oes angen i awdurdod cynllunio lleol eu hysbysu am gategoriâu penodol o geisiadau ar gyfer CAR.

2.2 Ar hyn o bryd mae yna arferiad cyffredinol ar waith sy'n diddymu'r gofyniad i hysbysu Cadw o gais am CAR ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar du mewn adeilad rhestredig gradd II (heb sêr) yn unig. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi llwyddo yn eu cais i ymestyn y trefniadau hyn i gynnwys pob adeilad rhestredig gradd II (ac eithrio ceisiadau i ddymchwel yn llwyr) ac mae un awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn ymestyn y trefniadau hyn i gynnwys ceisiadau sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig gradd II\* (seren). Yn fyr, rydym yn galw'r trefniadau estynedig hyn yn *ddirprwyo caniatâd adeilad rhestredig*.

### **3. Effaith**

3.1 Mae diddymu'r gofyniad i hysbysu Cadw yn golygu bod modd cael gwared â rhan o'r cylch CAR sy'n llyncu llawer o amser ac adnoddau i Cadw a'r awdurdod cynllunio lleol. Mae'n cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau'n lleol, yn ei gwneud yn broses amserol ac effeithlon, ac mae'n gwella'r gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae rhagor o fanylion ar gael ym mharagraffau 5.18 i 5.21 [Nodyn Cyngor Technegol 24: yr Amgylchedd Hanesyddol](#).

### **4. Gwahoddiad Ffurfiol**

4.1 Hoffem felly wahodd awdurdodau cynllunio lleol i wneud cais i ddiddymu'r gofyniad i hysbysu Cadw o geisiadau ar gyfer CAR sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig gradd II (ac eithrio dymchwel yn llwyr). Os ydych yn llwyddiannus, bydd y broses hysbysu'n parhau'n berthnasol i unrhyw gais sy'n cynnwys dymchwel adeilad rhestredig neu waith i adeilad rhestredig gradd I neu II\*. Wrth wneud cais, byddwch angen dangos bod yr arbenigedd a'r prosesau cywir gennych i wneud penderfyniadau cadarn a doeth sy'n diogelu a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol.

## 5. Mwy o Wybodaeth

5.1 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad A a dylid anfon ceisiadau at ein Huwch Reolwr Cynllunio Treftadaeth a Dynodiadau [matthew.coward@llyw.cymru](mailto:matthew.coward@llyw.cymru) Fodd bynnag, cyn i chi wneud cais, a fydddech cystal â chysylltu â Matthew gan y bydd ef yn gallu rhoi enghreifftiau i chi o geisiadau llwyddiannus blaenorol a allai helpu wrth i chi baratoi eich achos eich hun.

\*\*\*

## Atodiad A

### Canllawiau ar Ddirprwyo Caniatâd Adeiladau Rhestredig a Rôl Cadw yn y Broses Gydsynio

#### 1. Cefndir

1.1 Rhoddir Caniatâd Adeiladau Rhestredig Dirprwyedig i awdurdodau lleol os oes ganddynt fframwaith polis lleol cadarn sydd wedi'i gefnogi gan brosesau, arferion a dulliau gwneud penderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar gyngor arbenigol gan swyddogion cadwraeth sydd â'r nod o warchod a diogelu'r amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n cynnal cysylltiad gwaith agos â'r awdurdodau cynllunio lleol hynny sy'n cael hawliau dirprwyedig drwy broses adolygu flynyddol a gall barhau i ddarparu cyngor a chanllawiau ar gais eu swyddog cadwraeth.

#### 2. Meini Prawf ar gyfer Cael Caniatâd Adeiladau Rhestredig Dirprwyedig

2.1 Dylai'r canlynol o leiaf fod gan bob awdurdod cynllunio lleol:

- Fframwaith polisi lleol cadarn profedig ar waith, sy'n adlewyrchu'r egwyddorion sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24.
- Tystiolaeth y gall roi cyngor clir a gwybodus i ymgeiswyr ar reoli adeiladau rhestredig, gan gynnwys gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio.
- Dangos fod gan o leiaf un o'i swyddogion sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar bob cais am ganiatâd adeilad rhestredig yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i farnu rhinweddau'r ystod lawn o achosion caniatâd adeilad rhestredig (h.y. y swyddog a enwir). Gall cymhwyster proffesiynol, profiad perthnasol neu gyfuniad o'r ddau ddynodi addasrwydd.
- Cadarnhau bod cyngor ysgrifenedig yr unigolyn neu'r unigolion a enwir yn cael ei ystyried yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Pan na fydd y swyddog neu'r swyddogion a enwir – am ba bynnag reswm – yn gallu cynnig cyngor ar y cais dan sylw, bydd yr awdurdod yn cytuno i hysbysu Cadw os yw'n bwriadu rhoi caniatâd. Yn yr un modd, bydd yr awdurdod yn cytuno hefyd i hysbysu Cadw am y cais os yw'n bwriadu rhoi caniatâd yn groes i gyngor y swyddog a enwir.

- Cytuno ar amserlen fonitro gyda Cadw.
- Dangos gallu a pharodrwydd i gymryd camau gorfodi pan fo angen.
- Dangos gallu a pharodrwydd i fynd i'r afael ag adeiladau sydd mewn perygl.
- Cytuno i hysbysu Cadw am unrhyw newidiadau mewn personél neu arferion a allai effeithio ar y ffordd yr ymdrinnir â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig.

### **3. Monitro'r Trefniadau Dirprwyo**

3.1 Mae Cadw'n monitro trefniadau dirprwyo er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd a sicrhau bod safonau priodol yn cael eu cynnal. Y gobaith yw, ar ôl dirprwyo, ni fydd angen atal unrhyw broses ddirprwyo dros dro, ond bydd canlyniadau gwaith monitro a gwerthuso perfformiad yr awdurdod unigol yn llywio penderfyniad ynghylch a ddylid atal y broses ddirprwyo dros dro neu ei diddymu'n llwyr.

### **4. Gofynion Adrodd**

4.1 Disgwylir i bob awdurdod cynllunio lleol llwyddiannus gyflwyno adroddiad blynyddol (yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol) a ddylai gynnwys manylion ceisiadau a gymeradwywyd a ddirprwywyd i'w pennu'n lleol a manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod adrodd (gweler isod). Law yn llaw â'r adroddiad blynyddol, disgwylir i bob awdurdod lleol gytuno ar amserlen o ymweliadau gydag arolygydd rhanbarthol Cadw i arolygu ac adolygu sampl bach o achosion lle mae caniatâd wedi'i roi.

4.2 Dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth ganlynol a gyflwynir ar ffurf rhestr wirio:

#### **Rhan 1 – Adroddiad Cryno Ysgrifenedig**

- crynodeb o'r sefyllfa o ran polisi a'r wybodaeth ddiweddaraf gyffredinol am ddarpariaeth gwasanaethau;
- trosolwg byr o waith achos, gan gynnwys niferoedd a chanlyniadau cyffredinol, gyda gwybodaeth am drafodaethau cyn ymgeisio, y broses ymgynghori, amserlenni a chanlyniadau, gan gynnwys apeliadau;
- crynodeb o weithgareddau eraill y swyddog cadwraeth – gan gynnwys cyfraniad at gyngor cynllunio cyffredinol, gweithgarwch adfywio ac ati;
- crynodeb o weithgarwch gorfodi a chamau i fynd i'r afael ag adeiladau sydd mewn perygl.

#### **Rhan 2 – Gwaith achos**

- crynodeb mewn tabl o geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, yn cynnwys crynodeb o'r gwaith, yr amser a dreuliwyd arno a'r penderfyniad;
- crynodeb mewn tabl o achosion gorfodi, yn cynnwys y gwaith, camau adfer, yr amser a dreuliwyd a chanlyniad;
- crynodeb mewn tabl o hysbysiadau atgyweirio, gwaith brys a wnaed a hysbysiadau diogelu adeilad a gyhoeddwyd.

## 5. Rôl Cadw

### 5.1 Beth bynnag fo'r trefniadau dirprwyo, gall Cadw:

- Ddarparu cyngor ar strategaethau a pholisïau cenedlaethol, yn cynnwys y polisiau a'r egwyddorion cyffredinol y dylid eu defnyddio wrth ystyried unrhyw gynigion ar gyfer newid.
- Darparu cyngor ar strategaethau a pholisïau lleol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, er enghraifft mewn perthynas â rhestro'n lleol, sgiliau adeiladu traddodiadol, adeiladau sydd mewn perygl ac adfywio a arweinir gan dreftadaeth.
- Cynnig cyngor cyn ymgeisio ar achosion penodol. Mae [Polisi Cynllunio Cymru](#) (PCC) yn argymhell yn gryf bod trafodaethau cyn ymgeisio yn cael eu cynnal rhwng yr ymgeiswyr, yr awdurdod cynllunio lleol, a lle y bo'n briodol, Cadw, er mwyn cael eglurhad ynglŷn â pha waith fydd yn gofyn am ganiatâd adeilad rhestredig, faint o wybodaeth fydd ei hangen, a pha faterion eraill sydd angen eu datrys. Mae [Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru](#) yn egluro y dylai Cadw fod yn rhan o drafodaethau cyn ymgeisio pan fo'r newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar arwyddocâd yr adeilad. Nid yw Cadw'n gallu trafod rhinweddau achosion penodol unwaith y mae cais wedi'i gyflwyno.
- Darparu cyngor ar y broses o alw i mewn. Mae angen i'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru (Cadw) cyn rhoi caniatâd adeilad rhestredig. Mae'r hysbysiad yn sicrhau y gall Cadw ystyried a yw'r gweithdrefnau a'r canllawiau cywir wedi'u dilyn, neu a yw'r cais yn codi materion sy'n ymwneud â mwy na diddordeb lleol ac a allai fod angen eu pennu gan Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, anaml iawn y mae ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig yn cael eu galw i mewn.
- Rhoi cyngor i'r Arolygiaeth Gynllunio ar apeliadau. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio pan fo awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer gwaith ar adeilad rhestredig, yn rhoi caniatâd gydag amodau, yn gwrthod cais i amrywio neu gyflawni amodau sy'n gysylltiedig â chais am ganiatâd adeilad rhestredig, nad yw'n penderfynu ar gais o fewn y cyfnod a gytunwyd neu'n cyhoeddi hysbysiad gorfodi. Mewn achosion o'r fath, gofynnir am farn Cadw ar rinweddau'r adeilad ac effaith y gwaith.

- Helpu i feithrin gallu a gwydnwch. Bydd Cadw'n cydweithio ag awdurdodau cynllunio lleol i feithrin gallu a gwydnwch eu gwasanaethau cadwraeth, drwy hyfforddi a mentora.
- Hwyluso gweithio trawsadrannol, a chael arbenigedd o bob adran o Lywodraeth Cymru a chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig.
- Darparu fforwm i drafod materion cyffredinol, a hwyluso'r broses o rannu profiad ac arferion da o bob cwr o Gymru. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys rhannu cyngor yn ymwneud â rhywogaethau a warchodir neu dechnegau cadwraeth arbenigol. Mae Cadw'n gallu hwyluso hyn yn anffurfiol drwy drafodaethau â'i arolygwyr adeiladau hanesyddol sydd â phrofiad sylweddol ar hyd a lled ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'n cynull y Fforwm Treftadaeth Adeiledig hefyd sy'n darparu cyfleoedd rheolaidd i rannu gwybodaeth am bolisiau ac arferion da.

## **6. Cysylltu â ni**

6.1 Os hoffech drafod hyn yn fanylach, a fyddech cystal â chysylltu â Matthew Coward (manylion uchod) neu Judith Alfrey, Pennaeth Cadwraeth ac Adfywio yn [judith.alfrey@llyw.cymru](mailto:judith.alfrey@llyw.cymru).